**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(STRYDOEDD AMRYWIOL, Y DDRAENEN-WEN)**

**GORCHYMYN (AMRYWIO, CYFYNGIADAU AROS A LLWYTHO) 2024**

**A HYSBYSIAD CROESFAN I GERDDWYR A BEICWYR 2024**

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Er mwyn lleihau nifer yr achosion o barcio sy'n achosi problemau ac i wella llwybrau cerdded ar gyfer cerddwyr / beicwyr ar y ffordd yng nghyffiniau'r ysgol newydd yn Y Ddraenen-wen, mae'r Cyngor wedi gwneud cais ac wedi derbyn cyllid i ymchwilio i'r materion yma a chyflwyno cynllun 'Llwybrau Mwy Diogel Yn Y Gymuned' yn Y Ddraenen-wen.

Gwella'r amgylchedd i drigolion a busnesau lleol ac i osgoi perygl i bobl sy'n croesi'r briffordd trwy ddarparu Croesfan Twcan newydd i gerddwyr a beicwyr ar Heol Caerdydd, Y Ddraenen-wen.

Gwella diogelwch y ffyrdd a gwelededd ar gyffordd Heol Caerdydd â Lôn yr Ysgol, Heol Caerdydd â Ffordd Ynyslyn ac ar hyd rhan o Heol Ynyscorrwg.

Cyflwyno cyfyngiadau aros wedi'u nodi â llinellau melyn dwbl (cyfyngiadau gwahardd aros ar unrhyw adeg) a dim llwytho / dadlwytho ar rannau o Lôn yr Ysgol, Heol Caerdydd, Ffordd Ynyslyn a Heol Ynyscorrwg, Y Ddraenen-wen i wella diogelwch y ffyrdd a lleihau achosion o barcio sy'n achosi problemau.

Gosod llinellau melyn sengl (gwahardd aros) ar Heol Ynyscorrwg. Bydd hyn yn gwahardd cerbydau rhag parcio yno rhwng 7.30am – 9.30am a 2.30pm i 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, er mwyn gwella diogelwch y ffyrdd, ond bydd modd parcio yn y lleoliad yma y tu allan i'r amseroedd hyn.

Hwyluso tramwy cerbydau, atal perygl tebygol a gwella diogelwch ar gyfer holl ddefnyddwyr y briffordd, yn unol â'r mesurau hynny sydd wedi'u cynnig dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(VARIOUS STREETS, HAWTHORN)**

**(VARIATION, WAITING AND LOADING RESTRICTIONS) ORDER 2024**

**AND COMBINED PEDESTRIAN / CYCLING CROSSING NOTICE 2024**

## STATEMENT OF REASONS

To reduce problem parking and improve walking routes for pedestrians / cyclists on road in the vicinity of the new Hawthorn School, the Council has bid for and received funding to investigate and implement a 'Safer Routes in the Community' scheme in Hawthorn.

To improve the environment for local residents and business' and for avoiding danger to persons crossing the highway by the provision of a new combined pedestrian and cycle Toucan Crossing on Cardiff Road, Hawthorn.

To improve road safety and visibility at the junction of Cardiff Road with School Lane, Cardiff Road with Ynyslyn Road and along a section of Ynyscorrwg Road.

To implement double yellow lines waiting restrictions (prohibition of waiting at any time restrictions) with no loading / unloading on sections of School Lane, Cardiff Road, Ynyslyn Road and Ynyscorrwg Road, Hawthorn to improve road safety and reduce problem parking.

To implement a section of single yellow lines (prohibition of waiting) on Ynyscorrwg Road, that will restrict parking between 7:30am – 9:30am and 2:30pm to 4:00pm, Monday to Friday, to improve road safety, whilst allowing for parking outside of these times.

To facilitate the passage of traffic, prevent the likelihood of danger and to improve safety for all highway users, with measures proposed under the Road Traffic Regulation Act 1984